

Gwybodaeth i Garcharorion

Gwneud Cwyn

Beth i'w wneud os oes gennych gŵyn:



Y cam cyntaf yw siarad ag aelod o staff. Gellir delio â'r rhan fwyaf o broblemau drwy wneud hyn.





Gallwch hefyd wneud cais i siarad gyda:

Gofal Iechyd

Caplan

Neu aelod o'r Bwrdd Monitro Annibynnol Lleol.



Gofal Iechyd




Caplan



Bwrdd
Monitro
Annibynnol
Lleol

Applications	
Monday	☒
Tuesday	☒
Wednesday	☒
Thursday	☒
Friday	☒
Saturday	☒
Sunday	☒



Gellir gwneud cais unrhyw dydd.



Beth os nad yw siarad ag aelod o staff yn helpu?



Os na ellir datrys y mater drwy siarad â rhywun a'ch bod yn dal i fod yn anhapus, gallwch ysgrifennu eich cwyn ar bapur.



Sut ydw i'n gwneud cwyn yn ysgrifenedig?

Mae ffurflenni cwyno ar gael ym mhob adain.



Pan fyddwch wedi ysgrifennu eich cwyn ar y ffurflen, rhowch hi yn y blwch 'Cwynion'.



Beth os wyf yn dal i fod yn anhapus gyda'r ateb a gefais i'm cwyn?



Gallwch 'apelio' os nad ydych yn hapus gyda'r ateb. Mae hyn yn golygu y bydd eich cwyn yn cael ei chyfeirio at rhywun ar lefel uwch.



Alla i fynd at y Bwrdd Monitro Annibynnol i gwyno neu ofyn rhywbeth iddyn nhw?

Bwrdd Monitro Annibynnol Lleol



**Cewch, mi allwch ofyn am gael siarad
ag aelod o'r Bwrdd drwy ddefnyddio'r
system gwneud cais.**



**Fel arfer bydd y Bwrdd yn disgwyl
eich bod wedi ceisio datrys eich
problem gyda staff y carchar yn
gyntaf.**



**Beth alla i ei wneud os nad ydw i
eisiau i staff yr adain wybod am fy
nghwyn?**



Rydych yn gallu defnyddio'r 'weithdrefn gyfrinachol' os yw'ch cwyn yn ymwneud â mater difrifol neu sensitif.



Llywodraethwr
y Carchar

Cyfarwyddwr
Grŵp
Carchardai

Mae'r weithdrefn gyfrinachol yn caniatáu i chi ysgrifennu'n uniongyrchol at:

- Llywodraethwr y Carchar
- Cyfarwyddwr Grŵp Carchardai

Nid yw'r weithdrefn gyfrinachol yn ffordd gyflym ar gyfer delio â phroblemau bob dydd. Mae'n fwy tebygol y bydd eich cwyn yn cael ei datrys yn gynt os byddwch yn dilyn y ffordd arferol o wneud cwyn.

Os byddwch yn camddefnyddio'r weithdrefn gyfrinachol, byddwch yn gwastraffu amser.



Beth os oes gennyf gŵyn am aelod o staff y carchar?



Os ydych yn credu bod aelod o staff wedi eich trin yn wael neu'n annheg, gallwch gwyno wrth lywodraethwr y carchar.



Ysgrifennwch yn glir beth ddigwyddodd a dywedwch beth yn union oedd yr aelod o staff yn ei wneud o'i le yn eich barn chi. Ysgrifennwch os welodd rhywun arall yr hyn a ddigwyddodd.

Hefyd ysgrifennwch os allwch gefnogi eich cwyn gydag unrhyw dystiolaeth arall.




A allaf fynd â'm cwyn y tu allan i'r gwasanaeth carchardai?



Cewch, gallwch gwyno wrth yr Ombwdsmon Carchardai a phrawf annibynnol. Ond mae'n rhaid i chi roi cynnig ar y gweithdrefnau cwyno mewnol (carchar) a ddisgrifiwyd eisoes.




**PRISONS AND PROBATION
OMBUDSMAN**
for England and Wales
Independent Investigations



Rhaid i chi gwyno i'r Ombwdsmon cyn pen 3 mis ar ôl cael yr ymateb terfynol i'ch cwyn gan y gwasanaeth carchardai.



Mae taflen ar wahân ar sut i gwyno wrth yr Ombwdsmon.



A oes unrhyw bobl neu grwpiau eraill y tu allan i'r carchar y gallaf gwyno iddynt, heb gynnwys yr Ombwdsmon?



Ydyn, mae'r rhain wedi'u rhestru yn fframwaith y gwasanaeth carchardai.



Bydd llawer o'r grwpiau allanol yn disgwyl i chi fod wedi ceisio delio â'ch cwyn y tu mewn i'r carchar yn gyntaf.



Cofiwch: Mae gennych hawl i wneud cwyn ysgrifenedig swyddogol ar unrhyw adeg.



Os oes angen cymorth arnoch i ysgrifennu cwyn gallwch ofyn i garcharor arall eich helpu neu ofyn i aelod o staff am gymorth.

